

Rhoi Plant yn Gyntaf: Blaenoriaethu dyfodol Cymru

Maniffesto Etholiad
RCPCH Cymru 2026



Coleg Brenhinol
Pediatrieg a Iechyd Plant
Cymru

Yn arwain y ffordd ar Iechyd Plant

Rhoi plant yn gyntaf: Blaenoriaethu dyfodol Cymru Maniffesto Etholiad RCPCH Cymru 2026



Gyda'r newidiadau i'r system etholiadol yng Nghymru, bydd etholiadau'r Senedd yn 2026 yn wahanol i unrhyw un o'r blaen. Yr hyn sy'n glir i mi a fy nghydweithwyr iechyd plant ledled Cymru yw bod rhaid i ni roi plant a phobl ifanc yng nghanol yr etholiad hwn a gwneud eu hiechyd a'u lles yn flaenoriaeth genedlaethol i'r Lywodraeth nesaf Cymru.

Am gyfnod rhy hir ac yn llawer rhy aml, mae anghenion ein plant a'n pobl ifanc wedi cael eu hanwybyddu, eu goruchwyllo a gwasanaethau sy'n darparu ar eu cyfer wedi'u tanariannu. Mae anghydraddoldebau yn cynyddu, mae gwasanaethau'n cael trafferth, ac rydym yn brwydro i gadw eu pennau uwchben y dŵr. Mae'r diffyg ffocws ar blant mewn polisi, ac yn enwedig mewn polisi iechyd, wedi arwain at ganlyniadau iechyd gwael ymhlith plant a phobl ifanc.

Rydym yn aml yn clywed bod 'plant a phobl ifanc yn 25% o'r boblogaeth ond 100% o'n dyfodol'. Mae hyn yn wir. Rydyn ni i gyd eisiau byw mewn cenedl iachach yn y dyfodol, ond er mwyn cyflawni hyn, mae angen i ni sicrhau bod plant heddiw yn tyfu i mewn i oedolion cryf, iach a hapus sy'n gallu cyrraedd eu potensial. Mae angen Llywodraeth Cymru arnom a fydd yn arwain y ffordd at dyfodol iachach trwy roi plant yn gyntaf.

Mae'n bryd i lunwyr polisi werthfawrogi pwysigrwydd iechyd plant. Mae'r maniffesto hwn, a ddatblygwyd gyda mewnwelediad gan aelodau RCPCH Cymru a phlant a phobl ifanc, yn nodi pam mae iechyd plant yn bwysig, pam mae angen i ni weithredu nawr a darparu atebion i Lywodraeth nesaf Cymru.

Dr Nick Wilkinson, Swyddog RCPCH Cymru

Cyflwyniad

Cyn etholiad Senedd Cymru ym mis Mai 2026, rydym yn nodi'r hyn y dylai Llywodraeth nesaf Cymru ei wneud i wella iechyd plant a sicrhau y gall pob plentyn yng Nghymru gyflawni Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) i gael bywyd diogel, hapus ac iach.

Ein galwadau i'r Llywodraeth nesaf Cymru:

- 1. Grymuso'r gweithlu iechyd plant:** Denu, cefnogi a chadw gweithlu sy'n gallu gofalu am genedlaethau'r presennol a'r dyfodol.
- 2. Croesawu data ac arloesedd digidol:** Chwyldroi iechyd plant trwy dryloywder data a digideiddio, buddsoddi mewn seilwaith TG a hwyluso rhannu cofnodion ar draws sectorau.
- 3. Trawsnewid gwasanaethau iechyd:** Blaenoriaethu iechyd, hapusrwydd a lles plant o fewn cynllunio, ariannu a darparu'r GIG.
- 4. Cyflawni dros bawb:** Sicrhau bod pob plentyn yn cael cyfle i gael bywyd iach drwy liniaru penderfynyddion ehangach iechyd.

1. Grymuso'r gweithlu iechyd plant

Y broblem

Mae pwysau sylweddol ar y gweithlu ar draws y gweithlu iechyd plant. Nid yw niferoedd y gweithlu yn ddigonol i gyd-fynd â'r galw cynyddol am wasanaethau iechyd plant neu i gwrdd â chymhlethdod cynyddol anghenion iechyd plant.



Rydym yn bobl sy'n caru ein swydd ond gyda phwysau'r llwyth gwaith, nid ydym yn cael y cyfleoedd hyfforddi rydym yn eu haeddu, ac rydym yn llosgi allan.

Aelod o RCPCH Cymru, 2024

Dywedodd

88%

o aelodau RCPCH Cymru a holwyd fod nhw eisiau i Lywodraeth Cymru gyflawni cynllun gweithlu iechyd plant tymor hir.



Mae'r gweithlu presennol yn or-ymestyn, ac mewn perygl o losgi allan. Adroddodd [arolwg blynyddol y Cyngor Meddygol Cyffredinol \(GMC\)](#) o hyfforddeion a hyfforddwyr yn y GIG fod 61.6% o hyfforddeion pediatrig a 43.8% o hyfforddwyr yng Nghymru mewn risg uchel neu gymedrol o losgi allan.



Mae pwysau ein diwrnod gwaith yn aml yn uwch na'r hyn y gallwn ymdopi ag. Dros amser mae'r blinder, gweithio'n hwyr a disgwiliadau yn niweidiol i'n hiechyd ein hunain fel staff.

Aelod o RCPCH Cymru, 2024

Er bod [llwybrau cleifion pediatrig](#) wedi cynyddu 33% rhwng Mai 2021 a Thachwedd 2024, gan godi o 8,393 i 11,129, cododd y [nifer o feddygon ymgynghorol pediatrig](#) gan ddim ond 11 o ymgynghorwyr pediatrig Cyfwerth Amser Llawn (CALI). Mae hyn yn cyfateb i gynnydd o 33% mewn llwybrau o'i gymharu â chynnydd o 5.2% mewn ymgynghorwyr. Nid yw hyn yn plygio'r bwlch o bell ffordd wrth gwblhau llwybrau cleifion sydd wedi cronni dros fwy na degawd. Yn ogystal â hyn, nid yw buddsoddi mewn proffesiynau iechyd plant eraill wedi ateb y galw.



Mae ein gwasanaethau ymweld iechyd ac ysgolion nyrsio yn cael eu tan-ariannu yn druenus - ymateb Llywodraeth Cymru yn fwy o ddata a monitro, heb alluogi a grymuso staff i fod gyda phlant a theuluoedd. Mae angen i Lywodraeth Cymru a'r Byrddau Iechyd newid yn ddramatig y dull cyfan o ymdrin â phlant - o ran iechyd ond hefyd mewn addysg a gofal cymdeithasol - ar hyn o bryd rydym yn methu ein plant, ac mae'n teimlo fel nad oes neb yn gwrando.

Aelod o RCPCH Cymru, 2024

Mae heriau parhaus gyda bylchau rota a phrinder gweithlu ar draws ehangder y gweithlu iechyd plant. Yn 2024, roedd dros 2,000 o swyddi gwag nyrsys cofrestredig yng Nghymru. Yn ogystal, mae nifer yr [Ymwelwyr Iechyd FTE](#) wedi gweld gostyngiad cyson dros y blynyddoedd, gan ostwng 3% o 851.2 CALI (Mehefin 2021) i 827 (Mehefin 2024). Mae nifer y [Meddygfeydd Cyffredinol](#) yng Nghymru hefyd wedi gostwng 5.1% o 391 (Medi 2021) i 371 (Medi 2024).

Mae proffesiynau eraill fel ffisiotherapydd, therapyddion galwedigaethol a therapyddion lleferydd ac iaith hefyd wedi gweld buddsoddiad ysbeidiol sydd heb gadw lan gyda'r galw. Yn ddiweddar, [adroddodd](#) Coleg Brenhinol y Therapyddion Iaith a Lleferydd gyfradd o 51% o swyddi gwag ar gyfer SLTs

pediatrig cofrestredig yn un lle gwledig, a thanfuddsoddi yn y proffesiwn o'i gymharu â chenhedloedd eraill. Mae hyn yn achosi heriau enfawr i wasanaethau ddarparu cefnogaeth i blant a phobl ifanc.

Pam gweithredu nawr

Mae tanfuddsoddi cronig a phrinder staff yn cael effaith ar ddarparu gofal diogel ac amserol i blant. Mae hefyd yn cyfrannu at cansladau llawfeddygol, llai o gapasiti a phwysau ar draws gwasanaethau gofal iechyd.

Nid yw agendâu polisi a diwygiadau wedi mynd i'r afael yn ddigonol ag anghenion y gweithlu iechyd plant. Yn 2020, cyhoeddodd Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) a Gofal Cymdeithasol Cymru (GCC) [Cymru Iachach: Ein Strategaeth Gweithlu ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol](#). Nid oedd y cynllun hwn yn cyfeirio at y gweithlu iechyd plant, na phlant yn gyffredinol, y tu hwnt i nodi gwariant asiantaethau ar wasanaethau plant - 4% o swyddi wedi'u llenwi gan staff asiantaeth o'i gymharu â 2% mewn gwasanaethau oedolion.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru (2021-2026) Gynllun [Gweithredu'r Gweithlu Cenedlaethol: Mynd i'r afael â Heriau'r Gweithlu GIG Cymru](#). O'r bron 80 o gamau, cyfeiriwyd at iechyd plant unwaith yn unig ac mae'n ymwneud â gweithredu Cofnod Gofal Nyrsio Cymru mewn wardiau mamolaeth a phlant. Ar y llaw arall, mae'r papur yn manylu ar yr angen i ddatblygu 'dulliau cynllunio'r gweithlu cyfan' i ddiwallu anghenion y boblogaeth hŷn ac mae'n ymgorffori anghenion y rhan hon o'r boblogaeth ar draws addysg broffesiynol. Nid oes cyfeiriad cyfatebol at blant, er gwaethaf y cymhlethdodau a'r galw cynyddol o fewn iechyd plant.

Mae buddsoddi yn y gweithlu iechyd plant i atal a rheoli afiechyd a lleihau ffactorau risg yn gynnar mewn bywyd yw'r ffordd fwyaf effeithiol o osod y sylfeini ar gyfer poblogaeth iachach yn y dyfodol. Mae hyn yn cefnogi gweithlu mwy cynaliadwy ar draws y GIG drwy leihau'r pwysau ar wasanaethau iechyd oedolion yn y dyfodol.

Os mae anghenion iechyd syn dod i'r amlwg yn ystod plentyndod yn cael ei anerchwyd gan y bobl gywir yn y lle iawn, ar yr adeg gywir, gallwn leihau'r galw am wasanaethau iechyd yn y dyfodol.

Sut i arwain grymuso'r iechyd plant

Denu, cefnogi a chadw gweithlu iechyd plant sy'n gallu gofalu am genedlaethau'r presennol a'r dyfodol.

- Cwblhau dadansoddiad bwlch o'r gweithlu iechyd plant, wedi'i ddadgyfuno gan broffesiwn ac arbenigedd. Bydd hyn yn caniatáu dealltwriaeth gliriach o ofynion, cryfderau a chyfyngiadau a fydd yn gwell-hysbysu modelu data a chynllunio'r gweithlu.
- Datblygu Cynllun Gweithlu Tymor Hir (CGTH) ar gyfer iechyd plant, wedi'i lywio gan ddadansoddiad bwlch o'r gweithlu, y galw presennol ac rhagamcanol ar gyfer iechyd plant a mentrau cadw sy'n seiliedig ar glinigwyr.
- Ymrwymo i ehangu lleoedd hyfforddi ar gyfer pediatregwyr a'r gweithlu iechyd plant ehangach, yn seiliedig ar fodol data cadarn.
- Cynyddu mynediad at gyfleoedd gweithio hyblyg, cyngor a chefnogaeth dilyniant gyrfa, a gwell cyfleoedd ar gyfer hyfforddiant ac ymchwil amlddisgyblaethol (MDT).

2. Cofleidio data ac arloesedd digidol

Y broblem

Rydym ni gyd yn gwybod bod gwella data a buddsoddi mewn datblygiadau arloesol digidol gyda'r pŵer i drawsnewid canlyniadau iechyd plant tra'n cynyddu effeithlonrwydd. Yn anffodus, mae data iechyd plant yng Nghymru yn wael ac anaml y bydd datblygiadau arloesol digidol yn cyrraedd gwasanaethau iechyd plant.

Mae bylchau nodedig mewn data a gesglir yn rheolaidd ac sydd yn gyhoeddus sy'n ymwneud ag iechyd cymunedol, parodrwydd ysgol, anghenion iechyd yn yr ysgol, anabledau plentyndod, triniaeth neu wasanaethau y mae plant yn aros am, a dim ond data lefel-uchel ar gyfer y gweithlu pediatrig a llai fyth ar broffesiynau perthynol i iechyd. Mae hyn yn ei gwneud hi'n anodd i nodi ble mae'r pwysau, sut mae gwasanaethau'n ymdopi, neu a fyddai ailgynllunio a buddsoddi yn fuddiol.

Dywedodd

92%

aelod RCPCH a
holwyd y byddai
gwell systemau TG y
GIG o fudd i'r
gweithlu iechyd
plant.



Rwy'n cael fy nghythraddo yn gyson gan yr aneffeithlonrwydd oherwydd offer a seilwaith gwael TG. Mae'n arwain at wastraffu amser, gwastraffu adnoddau a rhwystredigaeth enfawr.

Aelod o RCPCH Cymru, 2024

Mae gwasanaethau yng Nghymru yn dal i ddefnyddio cofnodion papur, ac yn 2024 fe wnaeth Llywodraeth Cymru gydnabod fod hyn yn 'cyfyngu ar gywirdeb y data a gasglwyd' mewn cyfeiriad at y [Raglen Plant Iach Cymru](#). Mae'r system bapur sy'n ymwneud â'r rhaglen gyffredinol hon sy'n ceisio cefnogi teuluoedd newydd, mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd, a sicrhau bod pob plentyn yn cael y dechrau gorau i fywyd wedi arwain at deuluoedd yn colli allan. Ni chofnodwyd bod dros 57,500 o gysylltiadau a ddylai fod wedi cael eu cynnig ddim wedi digwydd. Mewn 20% o'r achosion hyn y rheswm dros y diffyg cyswllt oedd data ar goll neu annilys - yn syml, aeth 11,500 o deuluoedd hebddynt oherwydd y system bresennol.

Dangosodd y [adolygiad cyflym o drefniadau amddiffyn plant](#) gan Arolygiaeth Iechyd Cymru (AGIC) fod trefniadau cyfathrebu a rhannu gwybodaeth digonol annigonol yn peri risg i amddiffyn plant, gan nad oedd rhai gweithwyr iechyd proffesiynol yn ymwybodol a oedd trefniadau amddiffyn plant ar waith neu peidio. Gwaethygydd hyn gan staff yn defnyddio cofnodion mewn llawysgrifen mewn rhai meysydd ymarfer, y canfuwyd ar adegau eu bod yn annarllenadwy.

Mae'r gweithlu yn cael ei herio'n gyson gan ddiffyg ac anallu i rannu a chael gafael ar ddata a gwybodaeth iechyd plant ar draws systemau iechyd a gyda phartneriaid allweddol mewn addysg a gofal cymdeithasol plant.



Rwyf tua 25% mor gynhyrchiol ag y gallwn fod o ran darparu gofal iechyd i blant, oherwydd bod systemau TG a chymorth mor gyntefig.

Aelod o RCPCH Cymru, 2024

Mae plant yn dibynnu ar ystod ehangach o wasanaethau i ddiwallu eu hanghenion, gan gynnwys lleoliadau blynyddoedd cynnar, ysgolion, gwasanaethau iechyd, a phan fo angen, gwasanaethau cymdeithasol plant. O ganlyniad, mae gwahanol 'ddynodwyr' wedi'u neilltuo iddynt gan wahanol asiantaethau, gan gynnwys rhify GIG mewn lleoliadau iechyd, Rhif Disgyblion Unigryw ym mhob ysgol, gwahanol ddynodwyr lleol mewn Awdurdodau Lleol a gofal cymdeithasol. Mae hyn yn ei gwneud yn llawer anoddach cysylltu cofnodion am yr un plentyn a gedwir gan wahanol wasanaethau, sy'n golygu ei bod yn anodd cydgyssylltu gofal, ac efallai na chaiff risgiau iechyd neu ddiogelu eu nodi.



Fy nymuniad i am iechyd plant yw gwell gwasanaethau sy'n fy neall ac yn fy ngweld fel person yn hytrach nag fel fy anabledd yn unig.

Person ifanc, RCPCH&Us Labordy Arloesi Caerdydd, Hydref 2024

Neges gan blant a phobl ifanc

Drwy RCPCH&Us, mae plant a phobl ifanc wedi dweud wrthym dro ar ôl tro nad ydyn nhw am orfod "dweud eu stori ddwywaith". Mae hyn yn arbennig o bwysig i blant sy'n ymddiried mewn 'oedolyn dibynadwy' (gallai hyn fod yn athro, meddyg, gweithiwr ieuenctid) ac efallai na fyddant yn teimlo'n gyfforddus yn dweud eu stori wrth eraill.

Pam gweithredu nawr

Ni ellir gadael Cymru yn y tywyllwch yn bellach am gyflwr iechyd plant. Ar lefel genedlaethol i nodi tueddiadau a phatrymau mewn anghenion iechyd plant, ac ar lefel leol i gefnogi cleifion unigol. Buddsoddi mewn data ac atebion digidol ddylai fod yn flaenoriaeth i Lywodraeth nesaf Cymru.

Ers 2018 mae System Iechyd Plant (CYPrIS) wedi'i gweithredu'n raddol ar draws y Byrddau Iechyd. Roedd hyn yn ceisio sicrhau bod gan bob plentyn gofnod gweithredol a'i nod oedd sicrhau bod gwasanaethau iechyd plant yn cadw i fyny â thechnolegau digidol. Fodd bynnag, mae'r gweithlu iechyd plant yn parhau i fynegi heriau a rhwystredigaethau gyda'r diffyg cynnydd o ran rhannu gwybodaeth ac seilwaith digidol annigonol. Mae nifer o sefydliadau, gan gynnwys RCPCH Cymru a Chonffederasiwn GIG Cymru wedi mynegi pryderon bod y GIG yn wynebu stad sy'n heneiddio, gan gynnwys seilwaith digidol. Nid yw'r seilwaith sy'n heneiddio wedi'i gynllunio ar gyfer gofynion presennol nac y dyfodol ac felly mae'n methu i gyrraedd safonau modern. Mae angen buddsoddiad nid yn unig i symud i ffwrdd o system bapur dyddiedig ond hefyd sicrhau bod gennym seilwaith digidol sy'n hwyluso cysylltedd ar draws y system iechyd a gofal, a hefyd yn lliniaru risgiau seiberddiogelwch.

Nid yn unig y mae angen buddsoddi yn seilwaith digidol y GIG (caledwedd a meddalwedd) ond mae angen hwyluso rhannu gwybodaeth yn haws ar draws gwasanaethau. Yn 2023, [argymhellodd AGIC](#) y dylai Llywodraeth Cymru weithio ochr yn ochr â Byrddau Iechyd i gomisiynu system TG ganolog a hygyrch sy'n gallu dal yr holl wybodaeth iechyd sy'n ymwneud â phlant, gan gynnwys lleoliad unrhyw gofnodion sydd heb eu digideiddio. Nid yw hyn wedi'i gwblhau eto.

Mae nifer o adroddiadau dros yr 20 mlynedd diwethaf wedi archwilio manteision ac ymarferoldeb dynodwr plentyn cyson (DPC), a elwir fel arall yn Ddynodydd Unigryw Sengl (DUS). Gallai DUS wella'r broses o rannu gwybodaeth, lleihau'r risg o adnabod cleifion yn anghywir, gwella llwybrau gofal ac

amddiffyn plant ac, yn bwysig, leihau'r baich ar blant a theuluoedd i adrodd eu stori 'sawl gwaith. Bu galw, ers tro, gan sefydliadau fel [y Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant](#), Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol, Coleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac Iaith ac elusennau i fabwysiadu'r rhif GIG presennol fel DUS.

Mae Bil Lles Plant ac Ysgolion Llywodraeth y DU yn cymryd y camau cyntaf tuag at gael gwared ar rwystrau i rannu data gydag DUS yn Lloegr. Os caiff ei wneud yn dda, bydd hyn yn sicrhau nad oes unrhyw blentyn yn syrthio drwy'r bylchau ar draws asiantaethau. Ni ddylai Cymru gael ei gadael i ddal i fyny, mae angen i Lywodraeth nesaf Cymru sicrhau tegwch digidol.

Sut i arwain cofleidio data ac arloesedd digidol.

Chwyldroi iechyd plant trwy dryloywder data a digideiddio, buddsoddi mewn seilwaith TG a hwyluso rhannu cofnodion ar draws sectorau.

- Datblygu safon gwybodaeth i blant i'w gwneud yn glir pryd a sut y gall gwasanaethau iechyd, gofal ac addysg plant rannu gwybodaeth i wella iechyd plant a nodi niwed.
- Blaenoriaethu digideiddio gwasanaethau sy'n dal i ddefnyddio cofnodion papur.
- Buddsoddi mewn seilwaith TG y GIG a darparu'r adnoddau diweddaraf.
- Gweithredu'r rhif GIG fel Dynodwr Plentyn Cyson/Dynodwr Unigryw Sengl i wella gweithio amlasiantaethol a rhyng-iechyd proffesiynol.

3. Trawsnewid gwasanaethau iechyd

Y broblem

Cydnabyddir yn eang erbyn hyn bod gwasanaethau i blant wedi cael eu gadael ar ôl ac mae'r effaith yn cael ei theimlo gan y rhai mwyaf agored i niwed.

Mae timau iechyd plant yn gweithio'n ddifflino i fynd i'r afael â'r ôl-groniad a gwella mynediad at ofal. Fodd bynnag, mae systemau yn blaenoriaethu ymyriadau 'cyfaint uchel, cymhlethdod isel', tra mae ymyriadau ar gyfer plant, (a all fod yn fwy cymhleth ac sydd angen gweithlu sydd wedi'i hyfforddi'n wahanol), ddim yn cael yr un ffocws. Mae'r diffyg cyllid digonol ar gyfer gwasanaethau iechyd plant a'r diffyg cydlynw a goruchwylio cyllid rhwng gwasanaethau wedi effeithio ar allu plant i gael gofal iechyd.

Dywedodd

77%

**o aelodau RCPCH
a holwyd y dylai'r
Llywodraeth
flaenoriaethu cyllid
teg ar gyfer iechyd
plant.**



Fy nymuniad i am iechyd plant yw cael fy ngwrando arno ac i bobl parchu fy marn. Hefyd i ystyried fy iechyd meddwl. Gan fy mod i'n edrych yn hapus nid yw hynny'n golygu fy mod bob amser yn teimlo felly.

Person ifanc, RCPCH&Us Labordy Arloesi Caerdydd, Hydref 2024

Ym mis Chwefror 2024, cyhoeddwyd [Poeni ac Aros](#) a oedd yn ceisio tynnu sylw at y ffaith bod amseroedd aros pediatriig wedi gweld cynydd o 62% Nghymru rhwng 2016 a 2024 ac mae angen buddsoddiad brys ar wasanaethau iechyd plant.



Dwi eisiau teimlo eu bod yn ymwybodol fy mod yn aros a heb anghofio.

Banc Llais RCPCH&Us, 2024

Ym [mis Chwefror 2025](#), roedd 56,092 o lwybrau agored ar gyfer pobl dan 18 oed yn aros am driniaeth: Roedd 8,210 yn aros dros flwyddyn a 4,319 yn aros dros flwyddyn am apwyntiad cleifion allanol a 944 yn aros dros ddwy flynedd.

Nid ar gyfer gofal dewisol yn unig yw'r her ond gellir ei gweld ar draws y system iechyd. Er enghraifft, y diffyg ffocws ar brofiadau plant o ofal brys, ystyriaeth o allu diagnostig, ac effaith pwysau o fewn timau iechyd meddwl ac ymarfer cyffredinol ar fynediad i apwyntiadau a thriniaeth i blant a phobl ifanc.



Mae pethau'n mynd yn anoddach - mae iechyd plant yn gyffredinol yn wael gan ei fod yn aml yn iechyd meddwl. Mae mynediad at wasanaethau yn anodd felly fel paediatregwyr cyffredinol rydym yn gweld llawer mwy o CYP gydag amlygiadau corfforol o niwroamrywiaeth, pryder neu iechyd meddwl gwael fel y mae eu rhieni'n eu profi. Gall fod yn anodd cyfeirio at rywfaifaint o gefnogaeth ystyrlon.

Aelod o RCPCH Cymru, 2024

Mae presenoldeb i adrannau brys ar draws Cymru wedi cynyddu. Ym mis Tachwedd 2021, cyflwynwyd 7,369 o blant 0–4 oed mewn [adrannau achosion brys](#). Yr un mis, dair blynedd yn ddiweddarach, gwelwyd 9,182, 0–4 oed, yn mynychu adrannau achosion brys- cynnydd o 24.6%. Yn yr un modd, i bobl rhwng 5–17 oed, cododd hyn o 11.5% o 12,224 i 13,639.



Mae'r llwyth gwaith yn uchel iawn a gall deimlo'n aml ein bod yn gwneud y gwaith i ddau berson yn enwedig ar shifftiau y tu allan i oriau. Mae gweithio mewn adran sydd heb ei staffio'n gyson yn lleihau morâl ac yn cynyddu salwch sy'n gwaethygu hyn ymhellach.

Aelod o RCPCH Cymru, 2024

Mae iechyd cymunedol plant hefyd yn faes sydd wedi wynebu tanfuddsoddi parhaus, ond nid yw'r data ar gyfer nifer y plant sy'n aros yn y gymuned ar gael yn rhwydd. Yr hyn rydyn ni'n ei wybod yw bod rhestrau aros niwroddatblygiadol, yn benodol ar gyfer plant sy'n aros am asesiad ADHD neu Awtistiaeth, mor uchel â 20,770 ac amcangyfrifir erbyn mis [Mawrth 2027](#), fydd y rhif yn dyblu os nad yn driphlyg i 41,000-61,000.

Mae'r galw ar wasanaethau pediatrig ac iechyd plant yn cael ei waethygu gan anghydraddoldebau wrth gynllunio a darparu gwasanaethau. Nid yw gwasanaethau sydd ar gael i oedolion bob amser ar gael i blant a phobl ifanc. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys absenoldeb o lwybr ar gyfer blinder plant a rheoli poen.



Fy nymuniad i am iechyd plant yw i bobl ifanc deimlo bod eraill yn gwrando ar eu pryderon iechyd corfforol a meddyliol, ac iddyn nhw gael eu cymryd o ddifrif.

Person ifanc, RCPCH&Us Labordy Arloesi Caerdydd, Hydref 2024

Pam gweithredu nawr

Bydd methiant i gydnabod a mynd i'r afael â'r pwysau mewn gwasanaethau iechyd plant, a thrawsnewid y GIG drwy roi plant yn gyntaf, yn gwaethygu canlyniadau iechyd i'r blant a'u teuluoedd sydd mwyaf agored i niwed. Bydd hyn yn arwain at gynydd yn y galw am wasanaethau oedolion a bydd angen cyllid ychwanegol gan y GIG yn ogystal ag effeithio ar yr economi ehangach.

Mae nifer o Lywodraethau Cymru wedi cael anawsterau o ran cyrraedd targedau amseroedd aros y GIG a heriau o ran gwella cynhyrchiant oherwydd lefel uchel o alw ar wasanaethau. Bydd hyn ond yn parhau os na thynnir sylw at iechyd plant.

Er bod [Fframwaith Cynllunio GIG Cymru 2024-2027](#) wedi cydnabod 'Mae'n glir bod y pwysau parhaus yn cael effaith anghymesur ar blant a phobl ifanc', mae gwasanaethau i blant yn parhau i gael eu hanwybyddu a'u tangyllido. Mae hyn wedi arwain at arosiadau hir, er gwaethaf ymdrech gan y gweithlu.

Ychydig iawn o gyfeiriadau a wnaeth [y GIG mewn 10 mlynedd a mwy Archwiliad o effaith amcanestynedig cyflyrau hirdymor a ffactorau risg yng Nghymru](#) at blant, er bod plant yn defnyddio gwasanaethau iechyd yn aml, ac yw'r dyfodol y genedl. Mae'r papur yn hytrach yn nodi y dylid ystyried y materion a godwyd gan ganolbwyntio ar blant a phobl ifanc er mwyn archwilio'r effeithiau ar y GIG a chenedlaethau'r dyfodol. Nid yw'n glir a yw'r ymchwil hwn wedi'i wneud.

Gall trawsnewid gwasanaethau iechyd trwy ddefnyddio'r dull o 'rhoi plant yn gyntaf' a dylunio gwasanaethau o amgylch iechyd plant ac ymyrraeth gynnar ac atal gynyddu cynhyrchiant a lleihau'r galw ar wasanaethau oedolion, ac felly arbed arian i'r GIG a'r Llywodraeth yn y tymor hir.

Argymhelliad CYP

Yn ystod Labordy Arloesedd RCPCH&US, a gynhaliwyd yng Nghaerdydd, mynegodd plant a phobl ifanc eu bod nhw eisiau mwy o gefnogaeth wrth drosglwyddo o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion. Roeddent yn rhannu eu bod yn cael trafferth yn ystod y cyfnod hwn ac eisiau eiriolwr a oedd yn gyfarwydd â'r gwasanaeth, i'w helpu i lywio a chysylltu â gwasanaethau ar eu rhan. Dylai Llywodraeth nesaf Cymru sicrhau bod pob plentyn sy'n trosglwyddo o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion yn cael ei gefnogi gan unigolyn ymroddedig a all eu cefnogi i lywio'r amser hwn. cefnogi i lywio y tro hwn.

Sut i arwain trawsnewid gwasanaethau iechyd

Blaenoriaethu iechyd, hapusrwydd a lles plant o fewn cynllunio, ariannu a darparu'r GIG.

- Gweithredu Datganiad Ansawdd Iechyd Plant a nodi 'beth sy'n edrych yn dda' ar gyfer gwasanaethau iechyd plant.
- Datblygu Fframwaith Canlyniadau ategol i fonitro'r modd y mae'r Bwrdd Iechyd yn cyflawni'r Datganiad Ansawdd, a'i effeithiolrwydd o ran gwella gwasanaethau iechyd plant..
- Cyflwyno Safon Buddsoddi mewn Iechyd Plant i fynd i'r afael â'r bwlch buddsoddi rhwng gwasanaethau iechyd plant ac oedolion.
- Rhoi adnoddau priodol i Rwydwaith Strategol Iechyd Plant Perfformiad a Gwella GIG Cymru i sicrhau y gall gefnogi Byrddau Iechyd i ddarparu'r gofal gorau i blant.
- Sicrhau bod gan bob Bwrdd Iechyd Hyrwyddwr Iechyd Plant ar lefel Weithredol sy'n adrodd ar sut mae'r Bwrdd Iechyd yn cyflawni ei Siarter Hawliau Plant.
- Sicrhau bod gan bob Bwrdd Iechyd lais plant a phobl ifanc gweithgar sy'n llywio'r gwaith o gynllunio a darparu gwasanaethau.
- Sicrhau bod pob menter 'gofal yn nes at y cartref' yn adlewyrchu anghenion plant a phobl ifanc a, lle bo'n bosibl, sicrhau'r cysylltiadau gorau posibl rhwng iechyd, addysg a gofal cymdeithasol.

4. Cyflawni ar gyfer pawb

Y broblem

Gall plentyndod iach fod o fudd mawr i fywyd oedolyn trwy osod y sylfaen ar gyfer iechyd corfforol a meddyliol da, gan gynnwys agweddau fel cynnydd mewn disgwyliad oes, atal clefydau, swyddogaeth wybyddol gwell, sgiliau cymdeithasol cryfach, a mwy o wydnwch i straen fel oedolyn.



Erbyn i ni weld plant ar gyfer nifer o'r materion mawr, mae'r ceffyl eisoes wedi bolltio. Gallai buddsoddiad yn y blynyddoedd cynnar ac addysg ar rieni atal cymaint o'r problemau a welwn yn y blynyddoedd i ddod.

Aelod o RCPCH Cymru, 2024

Dywedodd

69%

**aelodau RCPCH
Cymru a holwyd
y byddai lleihau
effaith tlodi o fudd
mwyaf i'w cleifion
a'u teuluoedd.**



Fodd bynnag, nid yw pob plentyn yn cael yr un cyfleoedd, ac mae hyn yn effeithio ar eu iechyd. Anghydraddoldebau iechyd yw'r gwahaniaethau annheg a systematig y gellir eu hosgoi mewn canlyniadau iechyd rhwng gwahanol grwpiau o fabanod, plant a phobl ifanc.

Sbardunau anghydraddoldebau iechyd yw'r ffactorau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol sy'n cael effaith ar eu canlyniadau iechyd. Mae hyn yn cynnwys incwm, ethnigrwydd, tai, newid hinsawdd a derbyn gofal gan awdurdodau lleol.



Lleihau anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol a gosod plant wrth wraidd pob penderfyniad llunio polisi.

Aelod o RCPCH Cymru, 2024

Mae plant sy'n byw mewn tlodi yn fwy tebygol o gael canlyniadau iechyd gwaeth gan gynnwys risg uwch o farwolaeth ac iechyd corfforol a meddyliol gwael. Yng Nghymru, mae bron i draean (31%) o blant yn byw mewn tlodi incwm cymharol.

Mae tlodi plant yn sbardun sylweddol i anghydraddoldebau.

- **Absenoldeb ysgol:** Ar gyfer y rhai oedd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim roedd 64.3% yn absennol yn gyson o'r ysgol uwchradd, o gymharu â 33.9% yn anghymwys i gael prydau ysgol am ddim.
- **Gordewdra:** Mae gordewdra bron ddwywaith mor uchel mewn plant sy'n byw yn y pumawd mwyaf difreintiedig (13.6%), o'i gymharu â'r rhai yn y lleiaf difreintiedig (7.8%).
- **Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod:** Mae pobl sy'n byw mewn tlodi yn fwy tebygol o fod wedi profi ACEs. Cyda 13.1% o bobl yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig yn profi 4 neu fwy, o'i gymharu â 27.8% yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig.
- **Pydredd dannedd:** Y gyfradd achosion yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yw 43.4% o'i gymharu â 20.7% yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig.
- **Vaping:** Mae 25% o blant o aelwydydd incwm isel wedi rhoi cynnig ar e-sigarét, o'i gymharu â 19% o blant o aelwydydd incwm uchel.

Mae dylanwad tlodi ar iechyd a lles plant yn ddiamheuol. [Mae amodau tai](#) hefyd yn cael effaith sylweddol ar iechyd plant. Mae cyflyrau tai oer a llaith yn arwain at fwy o risg o asthma, heintiau anadlol, datblygiad gwybyddol arafach, a phroblemau iechyd meddwl mewn plant. Ond, nid tlodi ac amodau tai yw'r unig ffactor sy'n gyrru anghydraddoldebau.

Mae anghydraddoldebau iechyd hefyd yn bodoli rhwng grwpiau ethnig. Mae gwahaniaethau yn digwydd ar draws iechyd gan gynnwys marwolaethau, mynediad at ofal, defnyddio gwasanaethau, ataliad a baich clefydau. [Mae tystiolaeth](#) wedi dangos bod mynychder ac achosion o ddiabetes math 2 mewn plant o leiafrifoedd ethnig (o dan 16 oed) yn sylweddol uwch nag mewn plant gwyn. Mae [data ychwanegol](#) wedi dangos mai'r rhai o grŵp ethnig Sipsiwn Gwyn neu Deithwyr oedd y lleiaf tebygol o fodloni dangosydd cenedlaethol Cymru o ddau neu fwy o ymddygiad iach (66%) o'i gymharu â phob grŵp ethnig arall. Roedd [canran](#) y bobl ifanc a nododd eu bod yn gorfforol egniol am o leiaf 60 munud y dydd yn ystod y saith diwrnod diwethaf ar ei isaf ymhlith y rhai o grŵp ethnig Bangladeshaidd (11%) neu Tsieineaidd (12%) o'i gymharu â'r rhai o grwpiau ethnig eraill.



Fy nymuniad i am iechyd plant yw cydraddoldeb i bawb waeth beth fo'u hoedran, rhyw, rhywedd, gallu, rhywioldeb neu liw croen.

Person ifanc, RCPCH&Us Labordy Arloesi Caerdydd, Hydref 2024

Mae plant a phobl ifanc hefyd wedi nodi bod newid hinsawdd yn bryder sylweddol ac yn un sy'n achosi anghydraddoldebau. Mae newid hinsawdd yn fygythiad dirfodol i iechyd a lles plant a phobl ifanc, ond nid yw'n cael ei brofi'n gyfartal. Amlygiad i [lygredd aer](#) yw'r ail ffactor risg mwyaf ar gyfer marwolaeth ymhlith plant o dan 5 oed, yn y DU ac yn fyd-eang.

Amlygodd data'r Bancallais fod plant a phobl ifanc yn dod yn fwy pryderus am newid hinsawdd yn arwain at fwy o achosion o drallod-eco. Er enghraifft, nododd unigolyn o Gaerffili bod yn rhaid gwneud rhywbeth i wella'r hinsawdd er mwyn lleihau'r dirywiad iechyd meddwl sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc. [Datganiad Sefyllfa Newid Hinsawdd RCPCH, 2024](#)

Pam gweithredu nawr

Mae anghydraddoldebau iechyd yn ehangu, ac mae'r effaith yn cael ei theimlo gan y rhai mwyaf agored i niwed.

Yn ôl adroddiad diweddar gan y [Ganolfan Plentyndod Cynnar](#) gall blaenoriaethu datblygiad plentyndod cynnar trwy gefnogi rhieni sy'n gweithio a gofalwyr, gwella sgiliau cymdeithasol ac emosiynol, a lleihau gwariant cyhoeddus ar fesurau adfer ychwanegol o leiaf £45.5 biliwn i economi'r DU yn flynyddol.

Mae adroddiad gan [Achub y Plant](#) yn datgelu sut na fydd plant sy'n byw mewn tlodi yng Nghymru, sydd eisoes tu ôl pan fyddant yn dechrau ysgol, byth yn dal i fyny â'u cyd-ddisgyblion. Mae hyn yn cael effaith sylweddol ar eu cyfleoedd bywyd.

Yn 2024 gweithredodd Llywodraeth Cymru y [Strategaeth Tlodi Plant](#). Er bod anghydraddoldebau iechyd yn rhan o hyn, yn dilyn [ymgyrch](#) gan RCPCH Cymru, methodd y strategaeth yn ei chyfarwydd. Rydym yn cytuno â Chomisiynydd Plant Cymru, a sawl sefydliad arall, fod y strategaeth ddim yn cyd-fynd â difrifoldeb y sefyllfa sy'n wynebu plant a phobl ifanc. Yn 2024, arweiniodd RCPCH [47 o sefydliadau](#) wrth ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i fynnu gweithrediad i leihau effaith tlodi ac anghydraddoldebau.

Ers hynny, mae RCPCH Cymru wedi galw am Gynllun Gweithredu cynhwysfawr a fframwaith monitro sy'n nodi targedau a chanlyniadau mesuradwy ac sy'n ymgorffori'r [arsylwadau cloi'r Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn](#).

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae'r term 'diffodd tân' wedi cael ei fabwysiadu i ddisgrifio cyflwr y GIG, gyda Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio ar gyrraedd targedau a lleihau'r arosiadau hiraf. Fodd bynnag, [mae tystiolaeth](#) yn awgrymu, ar y mwyafrif, mai dim ond 20% o iechyd a lles cenedl sy'n ddibynnu ar wasanaethau gofal iechyd. Yn syml, ni fydd lleihau'r pwysau ar y GIG drwy 'ymladd tân' yn bosibl oni bai bod y galw yn lleihau a gyda phoblogaeth sydd yn mynd yn fwy afiach a sâl, mae hyn yn annhebygol o ddigwydd.

Mae [Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol](#) hefyd wedi galw ar Lywodraeth Cymru i ddiogelu a chlustnodi cyllid atal ym mhob cyllideb y dyfodol. Roedd hyn mewn ymateb i'r gyfran o wariant ataliol yng nghyllideb llynedd Llywodraeth Cymru yn cael ei hailddyrannu i ddelio â phwysau rheng flaen y GIG. Dywedodd y Comisiynydd **'heb weithredu, bydd gwariant ar atal yn parhau i fod yn achosiaeth o bwysau ar gyllidebau ddydd i ddydd ac yn ddioddefwr o feddwl tymor byr. Bydd hyn yn tanseilio ymrwymiad Llywodraeth Cymru i fabwysiadu dull hirdymor sy'n cael ei arwain gan atal'**.

Nid oes gan y GIG yr ysgogiadau i leihau anghydraddoldebau: dyma pam mae angen i ni symud y ffocws o fentrau iechyd cyhoeddus a ddarperir drwy'r GIG ac awdurdodau lleol, i fynd i'r afael â ffactorau fel newid hinsawdd, tai gwael, trafndiaeth ac ansawdd bwyd. Dylai mynd i'r afael â phenderfyniadau ehangach iechyd a chefnogi pob plentyn i gael bywyd iach fod yn ganolbwynt i Lywodraeth nesaf Cymru.

Sut i arwain cyflawni dros bawb

Sicrhau bod pob plentyn yn cael cyfle i gael bywyd iach drwy liniaru penderfyniadau ehangach iechyd gan gynnwys tlodi a newid hinsawdd.

- Cael Is-bwyllgor Cabinet o Weinidogion sy'n canolbwyntio ar gyflawni polisiau trawslywodraethol ar gyfer plant a phobl ifanc.
- Datblygu cynllun gweithredu tlodi plant cynhwysfawr sy'n cynnwys targedau a chanlyniadau mesuradwy.
- Ystyried swm Cymreig sy'n cyfateb i Daliad Plant yr Alban i helpu i liniaru tlodi plant.
- Parhau i ddarparu Prydau Ysgol am Ddim i bob plentyn ysgol gynradd a sicrhau gwerth maethlon yr holl brydau ysgol.
- Diweddarau Cynllun Plant a Phobl Ifanc Llywodraeth Cymru i gynnwys camau sy'n ymwneud ag anghydraddoldebau iechyd.
- Darparu cynllun anghydraddoldebau iechyd trawslywodraethol, wedi'i lywio gan y trydydd sector a phrofiad fyw.
- Cynnwys Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn llawn mewn deddfwriaeth i sicrhau bod hawliau plant yn cael eu parchu mewn penderfyniadau polisi, cynllunio a chyflawni.
- Gweithredu Fframwaith Gweithredu clinigol, rhiant a phlentyn i nodi sut y bydd y cyrff cenedlaethol, rhanbarthol a lleol yn gwella cefnogaeth blynyddoedd cynnar.
- Gweithio gyda Llywodraeth y DU i leihau effaith newid hinsawdd a sicrhau bod llais plant a phobl ifanc yn cael ei glywed i gyflawni newid.
- Ymgorffori Asesiadau Effaith Iechyd statudol mewn ymarfer bob dydd.
- Darparu ffrwd ariannu gynaliadwy er mwyn i beilotiaid ataliol ddod yn 'fusnes fel arfer'.

Sut mae'r galwadau hyn wedi cael eu datblygu

Cynhaliodd RCPCH Cymru arolwg o aelodau rhwng Medi-Rhagfyr 2024. Cafodd yr arolwg ymatebion gan 74 aelod ac mae'n cynnwys ymatebion gan bob Bwrdd Iechyd Brifysgol.

Mynychodd Swyddog a staff RCPCH Cymru y Rownd Fawr Cymru Gyfan ym mis Tachwedd 2024 i gasglu mewnwelediad pellach gan bediatregwyr yng Nghymru. Yn gyfan gwbl rhyngweithiodd RCPCH i bron i 100 o bediatregwyr yng Nghymru i lywio'r galwadau yn y manifesto hwn.

Canfyddiadau allweddol:


- Dywedodd 92% y byddai gwell systemau TG y GIG o fudd i'r gweithlu iechyd plant
- Roedd 88% eisiau i Lywodraeth Cymru gyflawni cynllun gweithlu iechyd plant tymor hir
- Dywedodd 77% y dylai'r Llywodraeth flaenoriaethu cyllid teg ar gyfer iechyd plant
- Dywedodd 69% mai lleihau effaith tlodi fyddai'r mesur ataliol mwyaf buddiol i wella iechyd plant.

Pan arolygwyd 'Pa benderfyniadau iechyd ehangach y dylai Llywodraeth Cymru eu blaenoriaethu', dewisodd yr aelodau (yn nhrefn blaenoriaeth): tlodi, iechyd meddwl, anghydraddoldebau, pwysau iach a phresenoldeb yn yr ysgol. Ymhlith yr opsiynau eraill roedd, newid hinsawdd, anweddu, ysmegu ac addysg iechyd rhywiol.

Pan arolygwyd 'Beth ddylai Llywodraeth Cymru ei wneud i flaenoriaethu iechyd plant ar lefel genedlaethol?', dywedodd 61% o aelodau mwy o gyllid i'r GIG.

Mae dyfyniadau gan aelodau RCPCH Cymru yn bresennol drwy'r manifesto.

Beth ydych chi am i Lywodraeth nesaf Cymru ganolbwyntio arno?



Thema allweddol a ddaeth i'r amlwg gan aelodau RCPCH Cymru oedd yr effaith a'r angen i fuddsoddi mewn gwasanaethau iechyd plant cymunedol, gyda 52% o'r aelodau yn ddweud bod nhw eisiau Llywodraeth Cymru i flaenoriaethu iechyd plant cymunedol a 48% yn ddweud bod nhw eisiau i Lywodraeth Cymru flaenoriaethu'r rhyngwyneb rhwng gofal cymunedol, cynradd, eilaidd a thrydyddol. Mewn ymateb bydd RCPCH Cymru yn datblygu papur pediatreg cymunedol i eistedd ochr yn ochr â'r manifesto.

Am RCPCH Cymru

Mae'r RCPCH yn gweithio i drawsnewid iechyd plant trwy wybodaeth, arloesedd ac arbenigedd. Mae gennym dros 600 o aelodau yng Nghymru, 14,000 ledled y DU a 17,000 yn ychwanegol ledled y byd. Mae'r RCPCH yn gyfrifol am hyfforddi ac archwilio pediatregwyr. Rydym hefyd yn eirioli ar ran aelodau, yn cynrychioli eu barn ac yn defnyddio eu harbenigedd i lywio datblygiad polisi a chynnal safonau proffesiynol.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Sarah Williamson, Rheolwr Polisi a Materion Cyhoeddus (Cymru), enquiry-wales@rcpch.ac.uk

Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant.
Corfforir trwy Siarter Frenhinol ac yn elusen gofrestredig yng Nghymru
a Lloegr: 1057744 ac yn Yr Alban: SCO38299.
Swyddfa gofrestredig 5-11 Theobalds Road, Llundain WC1X 8SH.
Noddwr Ei Huchelder y Dywysoges Frenhinol.

**Rhoi Plant yn Gyntaf: Blaenoriaethu
dyfodol Cymru**
Maniffesto Etholiad RCPCH Cymru 2026



©RCPCH 2025

Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant.
Corfforir trwy Siarter Frenhinol ac yn elusen gofrestredig yng Nghymru
a Lloegr: 1057744 ac yn Yr Alban: SCO38299.
Swyddfa gofrestredig 5-11 Theobalds Road, Llundain WC1X 8SH.
Noddwr Ei Huchelder y Dywysoges Frenhinol.

 **RCPCH**

**Coleg Brenhinol
Pediatreg a Iechyd Plant
Cymru**

Yn arwain y ffordd ar Iechyd Plant